

Bwletin Awdurdod S4C - Ebrill 2002

Mae'r isod yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau Awdurdod S4C yn ystod ei gyfarfod ar 27 Mawrth 2002.

Elusen S4C

Adroddwyd bod Shelter Cymru wedi'i ddewis fel yr elusen y byddai Apêl S4C yn ei chefnogi yn ystod 2002. Roedd penderfyniad wedi'i gymryd ar gyfer Apêl 2003 lle byddai'r ddwy elusen Ty Gobaith a Ty Hafan yn cael eu chefnogi yn sgil eu ceisiadau cryf. Byddai hyn yn rhoi cyfle i newid yr amserlen ar gyfer hysbysebu a dewis yr elusen ar gyfer 2004 ymlaen.

Cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon

Adroddodd y Cadeirydd ar y cyfarfod cafodd y Prif Weithredwr, yr Ysgrifennydd a hithau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol. Rhoddwyd iddi ddarlun llawn o weithgareddau S4C cyn manylu ar y cais am arian ychwanegol. Ni chafwyd unrhyw argraff glir a fyddai'r cais yn debygol o fod yn llwyddiannus ai peidio. Soniwyd bod amserlen y cylch ariannu wedi llithro rhywfaint ond dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai hi'n ysgrifennu at S4C maes o law.

Pro-Life Alliance

Adroddwyd ar ddyfarniad y Llys Apêl ar yr achos yr oedd y Pro-Life Alliance wedi dwyn yn erbyn y darlledwyr parthed eu penderfyniad i wrthod dangos lluniau darllediad gwleidyddol y blaid. Dyfarnodd y Llys Apêl (mewn dyfarniad a redodd i 26 dudalen) yn erbyn y darlledwyr gan ddweud y dylai ystyriaethau rhyddid mynegiant arglwyddiaethu dros faterion o chwaeth a gwedduster. Roedd ystyriaeth nawr yn cael ei roi i gyflwyno apêl i Dy'r Arglwyddi. Pe bai'r dyfarniad hwn yn aros, fe fyddai cwestiynau diddorol iawn yn codi ar gyfer y dyfodol.

Ffigurau Gwyllo

Adroddwyd ar y trafodaethau gyda BARB, RSMB ac ART ynglyn â phryderon mawr S4C am gywirdeb y ffigurau gwyllo yr oedd yn eu derbyn.

Cylch yr Iaith

Ystyriwyd papur yn cynnig sylwadau ar, ac yn ymateb i, adroddiad a ddanfonwyd at yr Aelodau gan Cylch yr Iaith parthed safon iaith o fewn rhaglenni Cymraeg S4C. Cytunodd yr Aelodau gyda'r sylwadau yn y papur. Roedd hi'n amlwg fod S4C a Cylch yr Iaith yn cymryd safbwyntiau gwahanol iawn ar y pwnc yma. Byddai swyddogion yn paratoi ateb i'w ddanfon at Cylch yr Iaith ar ran yr Awdurdod.

Ail-leoli Pencadlys S4C

Parhawyd y drafodaeth a gychwynnwyd yn y cyfarfod diwethaf ar leoliad pencadlys S4C. Ar ôl trafodaeth fanwl ac wedi pwyso a mesur yr holl safbwyntiau a roddwyd gerbron yn ystod y drafodaeth, penderfynwyd o dan yr amgylchiadau presennol ac yn sgil ei chyfrifoldebau statudol, nad oedd yn ymarferol i S4C ail-leoli fel y cyfryw ond y dylid gofyn i'r swyddogion a oedd modd dros gyfnod o amser i ddatganoli peth o'r gwaith gweinyddol lle byddai hynny yn cyfrannu at gynnal, hybu a chryfhau sefyllfa'r Sianel ac yn gyson gyda chael y gwerth gorau o'r arian ar gael.

Adroddiad Blynyddol 2001 – Themâu/Amlinelliad

Ystyriwyd papur oedd yn cyflwyno'r wybodaeth graidd fyddai'n sail i Adroddiad Blynyddol 2001. Nodwyd yr ystod o raglenni a ddarledwyd yn ystod y flwyddyn a'r effaith yr oedd clwy'r traed a genau wedi cael ar rai cynhyrchiadau yn ystod 2001. Roedd yr Awdurdod yn fodlon gyda'r hyn a roddwyd gerbron a nodwyd y byddai cyfle ychwanegol i'r Aelodau gyflwyno sylwadau pan fyddai drafft cyflawn o'r Adroddiad yn cael ei gyflwyno ar gyfer ystyriaeth yn y cyfarfod nesaf.

Cydymffurfiaeth

Ystyriwyd adroddiad gan y Grwp Cydymffurfiaeth yn deillio o'i gyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2002. Yn benodol, gofynnwyd i'r Awdurdod ystyried fater o gydymffurfiaeth yn codi o eitem ar *Wedi 6* (19 Chwefror 2002) ar y pwnc o canabis a ddaeth o gaffi canabis yn Stockport. Wedi nodi geiriad canllawiau S4C parthed rhaglenni yn ymwneud â'r driniaeth o bynciau megis cymryd cyffuriau, a chan ystyried yr eitem yn ei chyfanrwydd – gan gynnwys y rhagarweiniad yn y linc a wnaethpwyd yn y stiwdio – cytunodd yr Awdurdod y dylai ddangos ei gefnogaeth i'r eitem arbennig hon ar *Wedi 6*. Cefnogwyd hefyd bwysigrwydd hybu trafodaeth gyfrifol ar y pwnc ar y gwasanaeth yn fwy cyffredinol.

Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad: Ymateb S4C i'r Adolygiad o'r Iaith Gymraeg
- Adroddiad Cwynion
- Cofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2002
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr.
- Adroddiad Ymchwil.
- Adroddiad ar y Gwasanaeth Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol